

YSGOL DOLBADARN

CYLCHLYTHYR 3/2010 NEWSLETTER

Cyngor Ysgol

Bob blwyddyn mae disgyblion yr Adran Iau yn ethol cynrychiolwyr ar y Cyngor Ysgol, bachgen a merch i bob blwyddyn ysgol. Mae pedwar o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cael eu dewis i gynrychioli dosbarthiadau'r Babanod hefyd. Dyma lun o'r Cyngor Ysgol ar gyfer eleni.



Every year the Juniors elect their representatives on the School Council, a boy and a girl for each year group. Four Year 6 pupils are also nominated to represent the Infants. Here is a photo of the School Council for this school year.

Cadeirydd/Chairperson:	Oliver White
Is-gadeirydd/Vice Chairperson	Ffion Williams
Trysorydd/Treasurer	Dafydd Orritt
Clerc	Cerys Jones
Dirprwy glerc/Deputy clerk	Jessica Williams



Y Plant Meithrin

The Nursery Group

Mae'r Plant Meithrin wedi hen setlo yn yr ysgol a bellach yn ymuno â gweddill y disgyblion yn y cydaddoli ar foreau Llun a Gwener.

The Nursery children have all settled down really well at school and attend the whole-school assemblies on Mondays and Fridays.

Rhoddion Diolchgarwch

Thanksgiving Gifts

Yr oedd y casgliad yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni yn £115. Bydd yr arian yn mynd yn unol â phenderfyniad y Cyngor Ysgol tuag at apêl yr argyfwng ym Mhacistan. Aeth y ddau ddisgybl hynaf â ffrwythau hefyd i Plas Pen Gwaith a Plas Garnedd. Diolch i chi am eich rhoddion.

The collection made at the Thanksgiving Service totalled £115. The money will be sent to the Pakistan Flood Appeal in accordance with the decisions of the School Council. The two eldest pupils also took baskets of fruit to the residents of Plas Pen Gwaith and Plas Garnedd. Thank you all for your donations.



Dyddiadau i'w nodi**Dates to note**

- 05/11/10 Dathliadau Tân Gwyllt yng ngwesty'r Padarn Lake/
Bonfire night celebrations at the Padarn Lake Hotel
- 30/11/10 Cyfarfod i rieni Blwyddyn 6 yn Ysgol Brynrefail/*Meeting for Y6 parents at Ysgol Brynrefail.*
- 09/12/10 Ffair Nadolig/*Christmas Fair*
- 16/12/10 Cyngerdd Nadolig/*Christmas Concert*
- 17/12/10 Trip Pantomeim i'r Babanod/*Infant trip to a Pantomime*
- 20/12/10 Y dydd Llun yw'r diwrnod olaf o'r tymor i'r disgyblion/
Monday is the last day of term for pupils

Gwyliau Nadolig/Christmas holidays

- 04/01/11 Diwrnod cyntaf y tymor i staff/*First day of term for Staff*
- 05/01/11 Diwrnod cyntaf y tymor i ddisgyblion/*First day of term for pupils*
- 25/01/11 Disco Santes Dwynwen
- 31/01/11 Diwrnod HMS, ni fydd ysgol i'r plant/*Staff INSET day, there is no school for pupils*
- 21-25/02/11 Wythnos hanner tymor/*Half term week*
- 18/04/11 *Dechrau gwyliau'r Pas/Beginning of Easter holidays*
- 03/05/11 Diwrnod cyntaf y tymor i ddisgyblion a staff/*First day of term for pupils and staff*
- 30/05/11 -03/06/11 Gwyliau wythnos Sulgwyn/*Whit week holiday*
- 04/07/11 Taith Blwyddyn 5 a 6 i Gaerdydd/*Year 5 and 6 trip to Cardiff*
- 15/07/11 *Diwrnod olaf y flwyddyn ysgol/Last day of school year*
- 01/09/11 Diwrnod cyntaf y tymor i staff/*First day of term for Staff*
- 02/09/11 Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol i ddisgyblion/*First day of school year for pupils*

DS

Mae rhai newidiadau wedi bod i ddyddiadau'r gwyliau ysgol yn ddiweddar; uchod mae'r wybodaeth ddiweddaraf.

NB

There have been recent changes to the holiday dates for this year; above is the latest information available.

Newyddion Staff News

Braf oedd derbyn y newydd dros hanner tymor am enedigaeth Llio Elis i Mrs Rhian Roberts-Jones. Anfonwn ein cofion gorau at Mr a Mrs Roberts-Jones a Noa.

We are all delighted to hear the news of the early but safe arrival of Llio Elis over half-term and send our good wishes to Mr and Mrs Roberts-Jones and Noa.



Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Bu disgyblion o Flwyddyn 2 yn cyflwyno'r ddawns flodau yn seremoni cadeirio Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Diolch i'r staff fu'n eu hyfforddi.

Year 2 pupils presented the floral dance for the chairing ceremony at Ysgol Brynrefail's annual Eisteddfod this year. Many thanks to the staff who taught them.

Canu er budd yr Awbiwlans Awyr

Singing to raise money for the Air Ambulance

Bu disgyblion o'r ysgol yn cymeryd rhan mewn dau gyngerdd i godi arian ar gyfer yr Awbiwlans Awyr. Roedd un efo plant ysgolion eraill y Dalgylch a'r llall efo y corau lleol yn y Mynydd Gwefru. Codwyd dros £1200 i gyd tuag at yr elusen. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth.

Pupils from the school have taken part in two concerts for the Air Ambulance this term, one with children from other schools in the catchment area and one with local choirs at Electric Mountain. Both concerts raised over £1200 in total. Thank you all for your support.



Prynhawn o hwyl

Fun afternoon

Mae'n fwriad gan Fwrdd Yr Iaith Gymraeg i gynnal prynhawn o hwyl ar gyfer y gymuned yn y Ganolfan ar 5 Rhagfyr—mwy o wybodaeth i ddilyn.

The Welsh Language Board intends to hold a fun afternoon for the community at the Community Centre on 5 December—more details to follow.



Dathliadau'r Nadolig

Christmas Celebrations

Mae 16 Rhagfyr wedi ei nodi yn ddiwrnod o dathliadau a pharatoadau Nadolig yn y pentref ac fe gynhelir Cyngerdd Nadolig yr ysgol yr un noson yn y Ganolfan cyn y gweithgareddau ar y stryd. Cewch fwy o fanylion eto.

December 16 has been earmarked as an evening for Christmas celebrations and preparations in the village and the School Christmas Concert will be held at the Community Centre prior to the activities on the street. Further details to follow.



Gweithdy PowerWise Workshops

Yn gynharach y tymor hwn cafodd y disgyblion weithdy ar beryglon trydan gan gwmni Scottish Power, gan ddysgu llawer am ddefnyddio trydan yn ddiogel yn y cartref.



Earlier this term workshop sessions were held for the pupils by Scottish Power about the dangers of electricity. They learnt a great deal about using electricity safely within the home.

Dynes Lollipop Lady



Yn eu cyfarfod cyn hanner tymor bu i'r Llywodraethwyr drafod eto y pryderon sy'n codi ynghylch diogelwch plant o gwmpas y troad o'r Stryd Fawr i Ffordd Capel Coch. Mae'r sefyllfa yn amlwg yn llawer gwaeth heb wasanaeth dynes lolipop. Mae'n debyg eich bod wedi darllen yn y wasg am y bwriad i ddileu y gwasaneth yma mewn sawl pentref, yn cynnwys Llanberis. Mae'r Llywodraethwyr wedi anfon at yr Awdurdod i fynegi eu hanfodlonrwydd efo'r penderfyniad ac yn awyddus i chi sy'n rieni'r ysgol hefyd leisio'ch barn ar y mater drwy ysgrifennu llythyr. Er hwylustod, ceir isod awgrym o'r hyn y gallech ei gynnwys yn y llythyr; gellir lawrlwytho hwn o safle gwe'r ysgol hefyd.

The Governors in their meeting before half term once again discussed the concerns regarding the safety of pupils on their way to and from school and in particular at the junction of the High Street and Capel Coch Road. The situation is obviously much worse without the presence of a lollipop lady/man. You will no doubt have read in the press that the Authority intend to do away with this service in many villages, including Llanberis. The Governors have written to the Authority expressing their opposition to this and would like you as parents to let your views be known by letter. For your convenience, a possible wording for such a letter is given below; this can also be downloaded from the school's web-site.

Mr Dewi Jones
Pennaeth Gwasanaeth Addysg
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
LL55 1SH

Dear/Annwyl Mr Jones

Yr wyf fi sy'n riant i ddisgybl(ion) sy'n mynychu Ysgol Dolbadarn, Llanberis, yn bryderus iawn am ddiogelwch y plant ar y ffordd i ac o'r ysgol, yn arbennig wedi i wasanaeth y ddynes lolipop ddod i ben. Erfyniaf ar y Cyngor i ail ystired eu penderfyniad ar y mater hwn ac i sicrhau bod ein plant mor ddiogel â phosib wrth iddynt gerdded i'r ysgol.

As a parent of a child/children who attend Ysgol Dolbadarn, Llanberis, I am greatly concerned about the safety of children on their way to and from the school, particularly since the service of a lollipop lady has come to an end. I wish to urge the Council to re-consider its decision on this matter and to ensure that our children have as safe a route as possible to walk to school.

Yn gywir/Yours sincerely